Croeso i ddosbarth Sêr y Môr

Athrawes Mrs Susan Phillips

Cynorthwywyr Dosbarth Miss Currado, Mrs Callegari a Miss Slack

Bwriad y dudalen hon yw i roi blas i chi o'r hyn sy'n digwydd yn y dosbarth.

Tymor yma bydd dosbarth 'Sêr y Môr' yn astudio'r thema 'Fi fy hun' o fewn i'r chwe maes dysgu.

Amcan y Cyfnod Sylfaen yw cyfoethogi'r profiadau dysgu sy'n galluogi'r disgyblion i fod yn greadigol, defnyddio'u dychymyg a chael hwyl wrth ddysgu. Caiff plant fwy o gyfleoedd i archwilio'r byd o'u cwmpas trwy weithgareddau strwythuredig bydd yn eu hysgogi a'u hannog i fod yn ddysgwyr effeithiol ac annibynnol.

Darllen - Rydym yn defnyddio rhaglen 'Tric a Chlic' er mwyn dysgu'r disgylion sut i ddarllen. Mae yna nifer fawr o lyfrau darllen yn cyfrif HWB pob plentyn.

Addysg Gorfforol

Mae angen i blant ddod â siorts / trowsus tywyll, crys-t (lliw eu tîm yn ddelfrydol), siwmper ac esgidiau priodol (treinars) pob dydd Mawrth. Gellir prynu cit addysg gorfforol yr ysgol wrth Tees R Us, New Hedges, Dinbych-y-Pysgod.

Dydd Mercher Mwdlyd

Bydd angen i'r disgyblion i ddod â dillad ac esgidiau addas er mwyn mwynhau'r profiad yn iawn.Cyfle i'r disgyblion i fwynhau dysgu yn yr awyr agored yw hwn. Bydd y disgyblion yn cael cyfle i ymweld â'r goedwig sydd ar waelod cae'r ysgol, mynd lawr i'r traeth, ymweld â'r dref a mwynhau yn y parc chwarae lleol. Mae gennym rai siwtiau awyr agored (all-in-one), fodd bynnag, gofynnwn yn garedig i rieni ceisio brynu siwt awyr agored i'w plentyn neu sicrhau bod ganddynt hen ddillad i'w gwisgo. Mae esgidiau glaw hefyd yn bwysig iawn